TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# YMCA Tystysgrif mewn Cefnogi Gwell Iechyd drwy Newid Ymddygiad Ffordd o Fyw Lefel 3

**Yn gryno**

Amcan y cymhwyster hwn yw rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddysgwyr i hyrwyddo iechyd a lles unigolion, grwpiau a chymunedau fel y gall pobl wneud gwelliannau a newidiadau i'w bywydau trwy newid ymddygiad mewn modd cadarnhaol neu drwy fabwysiadu gweithgareddau ac arferion a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

Bydd y cymhwyster hwn yn addas ar gyfer unigolion sy'n weithgar mewn nifer o rolau megis: hyfforddwyr iechyd, llyw-wyr gofal, eiriolwyr iechyd a lles, gweithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol, mentoriaid iechyd, hyfforddwyr iechyd, a gweithwyr cymorth, hyrwyddwyr a chysylltwyr lles.

Mae hefyd yn addas ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn rôl hyrwyddwr iechyd neu rôl gysylltiedig fel gweithwyr cymunedol, ymgynghorwyr iechyd neu yn y gweithlu iechyd cyhoeddus ehangach sy'n dymuno datblygu eu gyrfa yn y maes hwn.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Er mwyn cyflawni Tystysgrif Lefel 3 YMCA mewn Cefnogi Lles trwy Newid Ymddygiad Ffordd o Fyw, rhaid i ddysgwyr gwblhau pob uned orfodol. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys 4 uned orfodol.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys yr unedau gorfodol canlynol:

Ymwybyddiaeth a chefnogaeth iechyd meddwl
Penderfynyddion iechyd ac anghydraddoldebau iechyd
Ymarfer proffesiynol ar gyfer llyw-wyr iechyd

Hanfodion ar gyfer cefnogi newid ymddygiad ffordd o fyw.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r cymhwyster hwn yn gymhwyster mynediad galwedigaethol. Mae hyn yn golygu ei fod yn cwrdd â'r gofynion diwydiant y cytunwyd arnynt i ymuno â'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel Llywiwr Iechyd cyflogedig neu hunangyflogedig.

Gall y cymhwyster hwn hefyd arwain at hyfforddiant pellach ar y lefelau eraill i arbenigo ac ehangu cwmpas ymarfer.

Er enghraifft: Arbenigeddau ffordd o fyw (i gefnogi gwaith gydag ystod ehangach o anghenion):

Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn ymwybyddiaeth a chymorth ysmygu ac anweddu
Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn ymwybyddiaeth a chymorth camddefnyddio alcohol a sylweddau
Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn ymwybyddiaeth a chymorth rheoli straen
Dyfarniad YMCA Lefel 2 mewn ymwybyddiaeth a chymorth bwyta'n iach
Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn ymwybyddiaeth a chymorth gweithgarwch corfforol
Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn Delwedd a Hyder Corff
Dyfarniad Lefel 3 YMCA mewn ymwybyddiaeth a chefnogaeth menopos

Arbenigeddau'r amgylchedd (i weithio mewn mwy o leoliadau):

Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn Datblygu Rhaglenni Gweithgaredd Corfforol Cynaliadwy mewn Lleoliadau Cymunedol

(603/7343/X)

Arbenigeddau technegol (i gyflawni rolau ychwanegol yn y gweithle):

Dyfarniad Lefel 2 YMCA mewn Diogelu Oedolion ac Oedolion sydd mewn Perygl (610/0822/9)
Dyfarniad Lefel 3 YMCA mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (603/1902/1)
Dyfarniad Lefel 3 YMCA mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (603/1903/3)